

RYDYM YN **recriwtio**

YMUNWCH â TÎM DU





Swyddog Gweinyddol

Teitl y Swydd: Swyddog Gweinyddol

Cwmni: Hamdden Sir Ddinbych Cyf

Maes Gwasanaeth: Canolfan Grefft Rhuthun

Yn Adrodd i'r: Swyddog Busnes a Chefnogaeth Weithredol, Canolfan Grefft Rhuthun

Graddfa Cyflog: Graddfa 4 / £24,790 - £25,992

Dyddiad Cau: Dydd Gwener 15fed Awst 2025

Swydd Ddisgrifiad

Pwrpas y Swydd:

Darparu gweinyddiaeth a chefnogaeth effeithiol ar gyfer gweithrediadau Canolfan Grefft Rhuthun, gan helpu i sicrhau bod y Ganolfan yn rhedeg yn esmwyth, yn unol â pholisïau, nodau a blaenoriaethau'r Ganolfan, gan gyfathrebu â staff eraill y Ganolfan a'u cefnogi, yn ôl yr angen.

Cydlynw a chynnal systemau a chofnodion cywir a chyfredol o drafodion a gohebiaeth, fel eu bod yn hygyrch i'w defnyddio gan Reolwyr y Ganolfan.

Bod yn gyswllt cychwynnol ar gyfer ymholiadau a gohebiaeth allanol, a chydlynw gwybodaeth, gohebiaeth a thrafodion sy'n ymwneud â gweithrediadau'r Ganolfan.

Canolfan Grefftau Ruthun:

Mae Canolfan Grefft Rhuthun wedi'i thrawsnewid yn sylweddol, gan wella ei harddangosfeydd, ei rhaglenni addysgol, a'i chyfleusterau cyhoeddus, gan gynnwys orielau, gofod addysg, stiwdios artistiaid, bloc ymwelwyr, ac ardal adwerthu. Wedi'i chydabod fel prif ganolfan celfyddydau cymhwysol Cymru, mae'n cynnig rhaglen o'r radd flaenaf o arddangosfeydd Celf Gymhwysol, gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a'r Cyngor Crefftau. Mae'r Ganolfan hefyd yn cyfrannu at faes y Celfyddydau Cymhwysol drwy addysg, cynadleddau, cyhoeddiadau, digwyddiadau cenedlaethol a phrosiectau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru fel CELF – prosiect oriel gelf gyfoes genedlaethol Cymru. Mae gofod manwerthu o safon yn cynnwys gwaith gan artistiaid a dylunwyr dethol, sydd ar gael i'r cyhoedd eu prynu.

Prif Atebolrwydd a Chyfrifoldebau

- Aelod tîm Canolfan Grefft Rhuthun sy'n bennaf gyfrifol am faterion gweinyddol o fewn cylch gwaith gweithredol y Cyfarwyddwr a'r Swyddog Busnes a Chefnogaeth Weithredol. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys:
- Cydlynw gwybodaeth y Ganolfan – gohebiaeth, ymholiadau dros y ffôn,
- cludo parseli, archebion ac anfonebau, a phostio, cyfathrebu â staff eraill y Ganolfan a'u cefnogi yn ôl yr angen.
- Gweithredu fel pwynt cyswllt Canolfan Grefft Rhuthun, delio â'r dderbynfa ac ymholiadau allanol a materion cyfleusterau.
- Prosesu archebion, anfonebau a thaliadau yn amserol, a chysylltu â staff eraill yn ôl yr angen, yn unol â gofynion ariannol Hamdden Sir Ddinbych.

- Cynnal cofnodion cywir, cyfredol a hygyrch, ar gyfer pob trafodyn ariannol, materion gweinyddol, a phob cyswllt, o fewn prosesau sefydledig.
- Gyda chytundeb ymlaen llaw gan y Cyfarwyddwr neu'r Swyddog Busnes a Chefnogaeth Weithredol, gosod archebion ar gyfer cyflenwadau a gwasanaethau'r Ganolfan.
- Mewnbynnu gwybodaeth gymeradwy, wedi'i diweddarau i bresenoldeb ar-lein y Ganolfan Grefft, mewn cysylltiad â'r Swyddog Addysg a'r Swyddog Busnes a Chefnogaeth Weithredol.
- Cydlynu dyddiadur y Cyfarwyddwr, a threfnu cyfarfodydd a threfniadau teithio ar gyfer y Cyfarwyddwr, trwy gytundeb ymlaen llaw.
- Cynorthwyo'r Cyfarwyddwr a Swyddogion Busnes a Chefnogaeth Weithredol i baratoi adroddiadau a dogfennau, yn ôl yr angen.

Manylion am yr Unigolyn

Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad

Mae'n hanfodol bod y canlynol gan ddeiliad y swydd:

- Profiad gweinyddol blaenorol mewn amgylchedd prysur sy'n delio â chwsmeriaid
- Profiad o gydlynu cyfarfodydd a rheoli dyddiaduron.
- Profiad o weithio gyda systemau ariannol (e.e. prosesu archebion, anfonebau, cofnodion, ac ati).
- 5 TGAU neu gyfwerth yn cynnwys Saesneg a Mathemateg neu gyfateb
- Sgiliau TG ardderchog, yn arbennig prosesu geiriau, taenlenni a chronfeydd data.
- Dealltwriaeth drylwyr o weithdrefnau gweinyddu
- Dealltwriaeth dda o ofal cwsmeriaid.
- Yn drefnus iawn, gyda'r gallu i gynllunio a blaenoriaethu cyflawniad llwyth gwaith eu hunain
- Cyfrannwr tîm da, sy'n gallu cynnal eu gwaith eu hunain ar sail hunan-gychwynnol
- Hyblygrwydd yn wyneb blaenoriaethau a llwythi gwaith sy'n newid
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol - wyneb yn wyneb, yn ysgrifenedig, dros y ffôn ac e-bost
- Diplomyddol a phob amser yn parchu a chadw cyfrinachedd
- Pragmatig a chwaraewr tîm cefnogol
- Empathi at y Gymraeg a diwylliant Cymru.

Mae'n ddymunol bod y canlynol gan ddeiliad y swydd:

- NVQ lefel 3 neu gymhwyster cyfwerth mewn Gweinyddu neu faes tebyg a chymhwyster TG.
- Profiad o waith cydlynu a gwaith gweinyddol sy'n seiliedig ar brosiectau mewn sefydliad diwylliannol neu gelfyddydol.
- Gallu cyfathrebu yn y Gymraeg

Amodau Gwaith Arbennig:

- Swydd 37 awr yr wythnos yw hon, ond mae hyblygrwydd gydag oriau gwaith craidd yn hanfodol.
- Mae'r rôl yn gofyn am y gallu i weithio dan bwysau, cwrdd â therfynau amser tynn, a rheoli tasgau'n annibynnol.

Amdanom Ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae HSDdCyf wedi datblygu portffolio o gyfleusterau sy'n arwain y sector, gan gynnwys 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm, 7 darpariaeth bwyd a diod unigryw, 2 atyniad anhygoel a theatr syfrdanol â 1,000 o seddi.

Mae tîm HSDd yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydyn ni'n gweithio i athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydyn ni i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle rydych chi wedi'ch lleoli. Gyda'n gilydd rydyn ni i gyd yn cyfrannu at wneud HSDdCyf yn llwyddiannus

Ein Gwerthoedd



Uchelgais a Thwf



Ymddiriedolaeth ac Uniondeb



Rhagoriaeth a Gwydnwch



Balchder ac Angerdd





diolch AM eich diddordeb

Gwnewch gais drwy ein gwefan:

<https://denbighshireleisure.co.uk/cy/gyrfaoedd/>

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â: Joe Jubb, Swyddog Cymorth Busnes
a Gweithredol, Canolfan Greffttau Rhuthun

01824 704774 neu joe.jubb@denbighshireleisure.co.uk

Byddwn yn creu'r rhestr fer ar gyfer cyfweiliad ar ôl y dyddiad cau, ac os
cewch eich dewis ar gyfer cyfweiliad byddwch yn derbyn e-bost gyda'r
manylion. Sicrhewch eich bod yn gwirio eich ffolderi sothach / sbam.

Mae'r dogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg / This document is also available in Welsh